Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Manylion Statws y Ddogfen

Statws	Cymeradwywyd
Hanes Fersiwn	3
Dosbarthiad	Di-ddosbarth
Dyddiad	6 Medi 2013
Awdur	Gwasanaethau Gwybodaeth / Cydymffurfiaeth
Dyddiad gweithredu	Gorffennaf 2002
Dyddiad adolygu	6 Medi 2017

1. Cyflwyniad.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r dull sydd wedi'i fabwysiadu i ddatblygu, rheoli a gwella Diogelwch Gwybodaeth er mwyn sicrhau bod asedau gwybodaeth yn cael eu diogelu'n briodol yn erbyn colled neu gyfaddawdu.

O fewn cyd-destun Diogelwch Gwybodaeth, mae 'gwybodaeth' yn cynnwys data ac unrhyw fath o gyfathrebu a gofnodwyd neu a drosglwyddwyd mewn trawsgrifiad neu'n llafar, yn ffisegol neu'n electronig. Yn nhermau asedau diriaethol, mae egwyddorion Diogelwch Gwybodaeth yn cwmpasu dogfennau papur, ffeiliau cyfrifiadurol, CDs, disgiau, gyriannau neu unrhyw gyfrwng storio neu brosesu arall.

2 Nod.

Mae Diogelwch Gwybodaeth yn wahanol i 'Reoli Gwybodaeth' sy'n cwmpasu set ehangach o lawer o weithdrefnau gweinyddol sydd eu hangen i reoli oes gyflawn gwybodaeth o'r tarddiad, i brosesu, i waredu. Serch hynny mae Diogelwch Gwybodaeth yn rhan hanfodol o Reoli Gwybodaeth ac er mwyn i hyn fod yn strwythur effeithiol, cyson, trefnus a gaiff ei weinyddu'n briodol, rhaid iddo gael ei sefydlu ym mhob amgylchedd gwaith drwy'r sefydliad.

Bydd pob agwedd o'r busnes yn cynnwys ystyriaethau Diogelwch Gwybodaeth, felly mae'n parhau'n gyfrifoldeb ar yr holl bobl sy'n gweithio i Brifysgol Cymru neu i'w chefnogi i ddiogelu asedau'r sefydliad a sicrhau bod yr holl fesurau gwarchodol yn weithredol.

Wrth weithredu'r polisi hwn mae hefyd yn bwysig fod ehangder yr egwyddorion diogelwch gwarchodol sy'n ymwneud â gwybodaeth, TG, diogelwch personél a ffisegol yn cael eu hintegreiddio'n llawn i greu dyfnder a chadernid digonol i ategu gofynion cysondeb busnes a gwarchod yn erbyn yr holl fygythiadau sy'n bodoli.

Yn olaf, rhaid i Ddiogelwch Gwybodaeth roi ystyriaeth lawn i amrediad o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r modd y gellir rheoli a diogelu gwybodaeth a data. Thema gyffredin yw 'cyfrinachedd', ac er mwyn parhau i gydymffurfio'n gyfreithiol, gosodir rhwymedigaethau ar staff i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diogelu.

3 Egwyddorion Cyffredinol.

Y bwriad yw disgrifio gofynion Diogelwch Gwybodaeth a dangos yr angen am weithgaredd angenrheidiol i ddiogelu gwybodaeth, ymdrin â bygythiadau a chydymffurfio â deddfwriaeth.

Mae dealltwriaeth na all y sefydliad weithredu heb wybodaeth, prosesau a rhwydweithiau sy'n cyfuno i greu seilwaith cymhleth yn elfen ganolog o'r dull hwn. Mae hefyd yn bwysig adnabod data mwy sensitif, asedau gweithredol, cyllidol neu ariannol sydd angen gwarchodaeth benodol a datblygu mesurau i atal, canfod a lliniaru colled neu gyfaddawd.

Er mwyn cydbwyso anghenion busnes gyda gofynion diogelwch gwybodaeth mae angen ymateb cymesur a chaiff hyn ei gyflawni drwy fabwysiadu mesurau sy'n gwarchod:

- Cyfrinachedd – sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i'r sawl sydd ag awdurdod yn unig, a diogelu asedau yn erbyn datgeliad heb awdurdod.

- Unplygrwydd – diogelu cywirdeb a chyfanrwydd gwybodaeth a dulliau prosesu, a diogelu asedau rhag addasu heb awdurdod neu'n ddamweiniol.

- Argaeledd – sicrhau bod defnyddwyr awdurdodedig yn gallu cael yr wybodaeth a'r asedau cysylltiedig pan fydd angen er mwyn cyflawni amcanion strategol Prifysgol Cymru.

Nod sylweddol arall yw atgyfnerthu 'cyfrinachedd' ac egwyddorion 'angen gwybod'. Caiff gwybodaeth ei chyflenwi'n gyfrinachol, ei datblygu i gynorthwyo mentrau gweithrediadol a strategol neu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes sensitif eraill, rhaid ei thrin mewn modd cyfrinachol a'i rhannu ag eraill wrth gynnal busnes swyddogol ar sail 'angen gwybod' yn unig. Ceir deddfwriaeth i gefnogi'r gofyniad hwn gan gynnwys:

- Deddf Diogelu Data 1998 - rhaid diogelu data personol yn briodol heb ei ddatgelu oni bai bod awdurdod a chyfiawnhad priodol.

- Deddf Cam-drin Cyfrifiaduron 1990 - mae'n ei wneud yn anghyfreithlon i gael mynediad at gyfrifiadur neu ei ddefnyddio heb awdurdod.

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - darparu ar gyfer datgelu data nad yw'n bersonol, yn amodol ar eithriadau.

Er mai bwriad y polisi hwn yw dynodi ystod o fesurau diogelwch gwarchodol, mae angen manyldeb sylweddol er mwyn darparu gofynion gweithdrefnol clir ac arweiniad i ymarferwyr. Bydd manylion o'r fath i'w cael mewn cyfres o 'Bolisïau a Gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth' a gaiff eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar y fewnrwyd a lle bo'n briodol ar y rhyngrwyd, o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Brifysgol.

Bygythiadau a Gwendidau - Wrth fabwysiadu mesurau diogelu perthnasol, rhaid ystyried natur y bygythiadau a'r gwendidau.

a) Mae rhywfaint o waith y Brifysgol o ddiddordeb i eraill, ac er bod rhaid i'r brifysgol weithredu fel gwasanaeth cyhoeddus, mae'n bwysig gwarchod asedau sensitif a diogelu yn erbyn elfennau annymunol a allai dreiddio iddi megis terfysgwyr, troseddwyr, y sawl sy'n ymosod ar gyfrifiaduron, ac mewn rhai achosion, y cyfryngau.

b) Yn ogystal â gwendidau allanol, rhaid i'r sefydliad hefyd ymdrin â gweithgaredd anawdurdodedig neu anghyfreithlon yn fewnol gan gynnwys llygredd neu unrhyw weithred neu anwaith bwriadol neu ddamweiniol a allai arwain at gyfaddawdu neu golli gwybodaeth.

4. Heriau a Sylwadau.

Dylid cyfeirio heriau a sylwadau am y polisi hwn at y Rheolwr Cydymffurfio ac Ysgrifenyddiaeth.

5 Arweiniad a Gweithdrefnau.

5.1 Cyfrinachedd.

Mae gwybodaeth sydd ar gael i staff ac eraill sy'n gweithio i gefnogi Prifysgol Cymru yn cael ei darparu at ddefnydd swyddogol yn unig. Ni chaniateir defnydd personol na chyfathrebu â phersonau anawdurdodedig.

5.2 Angen Gwybod.

Rhaid i wybodaeth am wybodaeth sensitif a meddu ar yr wybodaeth honno fod yn gyfyngedig i'r rhai sydd â gwir 'angen gwybod'.

5.3 Dosbarthiad.

Mae dosbarthiad yn darparu safon gyson ar gyfer marcio asedau sensitif. Mae'r dosbarthiad yn dechrau gyda **DI-DDOSBARTH** ac yn symud drwy **CYFRINACHOL** i **CYFRINACHOL IAWN**. Cyfrifoldeb y sawl sy'n creu'r ased yw ei ddosbarthu a rheoli cylchrediad cychwynnol a ddylai fod yn gyfyngedig i'r sawl sydd 'angen gwybod'. Wedi hynny rhaid i unrhyw brosesu neu drin ased sydd wedi'i farcio ddilyn gweithdrefnau cymeradwy sy'n cynnwys dulliau storio a gwaredu diogel. Cyfeiriwch at y Polisi Preifatrwydd Gwybodaeth.

5.4 Diogelu Data.

Rhaid cymryd gofal i ddiogelu data personol a chymhwyso egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data i sicrhau bod casglu, defnyddio, cadw, datgelu a gwaredu'n dilyn gofynion cyfreithiol. Cyfeiriwch at y Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Data.

.

5.5 Ymarfer Desg Glir.

Rhaid rheoli asedau sensitif gan gynnwys rhai sydd wedi'u marcio gyda dosbarthiad mewn modd sy'n rhwystro mynediad anawdurdodedig. Mae hyn yn cynnwys diogelu asedau mewn cypyrddau priodol pan na fyddant yn cael eu defnyddio, yn enwedig y tu allan i oriau gwaith arferol.

5.6 Ymarfer Sgrin Glir.

Rhaid rhoi arbedwyr sgrin â chyfrinair ar waith pan fydd y defnyddiwr i ffwrdd o'r derfynell gyfrifiadurol i atal mynediad anawdurdodedig at wybodaeth neu systemau. Yn ogystal, dylid gosod y sgrin lle caiff gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif ei phrosesu neu ei harddangos mewn modd nad oes modd i bersonau anawdurdodedig ei gweld.

5.7 Darparu Cyfarpar ac Ategolion.

Mae'r Brifysgol yn darparu'r cyfarpar angenrheidiol ac ategolion eraill at ddefnydd busnes y Brifysgol yn unig. Gwaherddir storio cerddoriaeth, lluniau a dogfennau personol ar y cyfryw gyfarpar. Er bod cyfarpar fel arfer yn cael ei neilltuo i aelod unigol o staff, gall unrhyw aelod o staff sydd ag awdurdod ddefnyddio unrhyw eitem benodol.

Pan gaiff cyfarpar ei neilltuo cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel ac atal eitemau o'r fath rhag cael eu colli neu eu dwyn.

Gwaherddir gosod unrhyw galedwedd anawdurdodedig ar gyfrifiaduron neu rwydwaith y Brifysgol.

Caiff ebost a'r rhyngrwyd eu defnyddio'n unol â Pholisïau Monitro Ebost a Defnydd Rhyngrwyd perthnasol y Brifysgol ar gyfer y gweithgareddau hynny. Mae defnyddwyr cyswllt gwe'r Brifysgol hefyd wedi'u rhwymo gan Bolisi Defnydd Derbyniol JANET (The JNT Association Ltd).

5.8 Cynllunio Systemau, Defnydd a Chyfrineiriau

Pan fydd system wybodaeth newydd neu wedi'i gwella'n sylweddol yn cael ei chynllunio, caiff elfennau diogelwch, cydymffurfio, adennill ac afreidrwydd eu hystyried a'u rhoi ar waith fel rhan o gynllun y system, gweinyddiad a manyleb y system. I gael rhagor o gyngor ac arweiniad cysylltwch â compliance@cymru.ac.uk .

Caniateir i staff, gweithwyr asiantaeth, contractwyr ac ymgynghorwyr ("**Defnyddwyr Cymeradwy**") sy'n gweithio i gefnogi Prifysgol Cymru ddefnyddio cyfrifiaduron a systemau y maent wedi'u hawdurdodi'n benodol i'w defnyddio i gynnal busnes y Brifysgol yn unig.

Caniateir defnydd preifat gydag awdurdod y rheolwr llinell yn unig, gyda defnydd cyfyngedig neu achlysurol yn cael ei ganiatáu. Felly cyfrifoldeb y rheolwr llinell, os yw'n caniatáu i staff ddefnyddio cyfarpar y Brifysgol, yw monitro defnydd o'r cyfryw gyfarpar yn rheolaidd. Cyfeiriwch at y Weithdrefn Dogfennau Personol ac Ebost.

Mae caniatâd i ddefnyddio yn cynnwys defnydd o fanylion mewngofnodi diogel personol staff, ynghyd â chyfrinair unigryw nad oes neb ond y defnyddiwr yn ei wybod. Rhaid peidio â datgelu cyfrineiriau i bobl eraill, na'u hysgrifennu ar bapur. Gallai gwneud hynny arwain at gamau disgyblu. Yn ogystal, ni fydd ffurfweddiad y cyfrinair yn caniatáu enwau neu ddyddiadau amlwg y gellid eu cysylltu'n rhwydd â'r defnyddiwr, a bydd yn gorfodi cyfuniad o nodau alffa, rhifol, prif lythrennau a llythrennau bach.

5.9 Gyriannau Adran a Gyriannau Lleol.

Mae gan bob adran y Brifysgol yriannau dynodedig sydd wedi'u creu i storio a chadw copi o ddeunydd yn gysylltiedig â gwaith. Ni ddylai data'n ymwneud â gwaith gael ei storio ar unrhyw gyfrif ar y gyriant lleol (a elwir yn yriant C) neu yriant H yr unigolyn.

5.10 Ymchwilio ac Archwilio

O bryd i'w gilydd, efallai y gellid amau bod unigolion yn y Brifysgol neu'r Brifysgol ei hun yn torri polisïau mewnol neu allanol, rheoliadau neu ddeddfwriaeth. Gan ddibynnu ar natur neu ddifrifoldeb y toriad honedig, caiff lefel briodol o ymchwilio ac adrodd ei chynnal.

Ar lefel unigol, dim ond gyda chaniatâd penodol yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor neu'r Rheolwr Cyllid ac Adnoddau y bydd ymchwiliadau sy'n golygu mynediad (breintiedig neu gudd) at ddata personol a chofnodion ar systemau'r Brifysgol yn ymwneud â'r unigolyn hwnnw yn cael eu cynnal. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys:

- ymchwilio i honiadau o ddefnydd amhriodol o ddeunydd rhyngrwyd, torri hawlfraint, twyll hunaniaeth neu gyfathrebu amhriodol, sarhaus neu enllibus.

Gallai ymchwiliadau o'r fath arwain at achos pellach yn erbyn unigolion dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol a pholisïau cysylltiedig, hyd at a chan gynnwys diswyddo.

Ar lefel y Brifysgol neu ar gyfer sefyllfaoedd unigol mwy difrifol, bydd y Brifysgol yn cydweithio'n llawn ac yn agored gyda'r asiantaethau rheoleiddio neu orfodi'r gyfraith perthnasol i gynorthwyo gydag unrhyw ymchwiliad i honiadau.

I sicrhau cydymffurfiaeth â pholisiau mewnol ac allanol, rheoliadau a deddfwriaeth, bydd systemau gwybodaeth a thechnoleg yn agored i'w harchwilio a'u hadolygu'n broffesiynol yn gyfnodol, yn fewnol ac yn allanol. Bydd y Brifysgol unwaith eto'n cydweithio gydag archwiliadau o'r fath a bydd yn derbyn ac yn gweithredu canfyddiadau ac argymhellion sy'n codi a gytunir, yn amodol ar flaenoriaethu busnes a chyfeiriad fel bo'n briodol.

Caiff rhaglenni archwilio rheolaidd eu cynnal gan y Rheolwr Rhwydwaith a Systemau naill ai o bell neu o fewn adeilad y Gofrestrfa. Bydd adroddiadau archwilio ar gael i'r Rheolwr Cyllid ac Adnoddau, y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth ac unrhyw Reolwr angenrheidiol yn y Brifysgol.

5.11 Meddalwedd Corfforaethol

Gwaherddir lawrlwytho meddalwedd anawdurdodedig i unrhyw system Prifysgol Cymru, boed yn rhan o'r rhwydwaith neu'n gyfleuster arunig, heb ganiatâd blaenorol y Rheolwr Rhwydwaith a Systemau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, unrhyw raglen y gellir ei gweithredu, arbedwr sgrin neu raglen facro. Yn ogystal rhaid i feddalwedd cymeradwy a lwythir ar systemau'r Brifysgol beidio â chael ei lawrlwytho na'i gopïo.

Darperir meddalwedd corfforaethol i ddefnyddwyr cymeradwy i'w ddefnyddio i gyflawni eu dyletswyddau a chynnal busnes y Brifysgol yn unig.

5.12 Cyfrifiadura Symudol

Rhaid i ddyfeisiadau cyfrifiadura symudol, megis Trefnwyr Digidol Personol, dyfeisiadau cof cludadwy, gliniaduron a ffonau Blackberry/symudol sy'n eiddo i Brifysgol Cymru, neu sy'n cynnwys data'r Brifysgol, fod yn ddiogel ar bob achlysur. Rhaid actifadu rheolaeth mynediad (e.e. PIN) a rhaid cymryd gofal arbennig i ddiogelu'r cyfarpar wrth deithio neu mewn man cyhoeddus. Oni bai bod cyfarpar yn cynnwys mesurau diogelwch penodol, fel amgryptio, yna rhaid i ddosbarthiad unrhyw ddata a gynhwysir ar y dyfeisiadau hyn beidio â bod yn uwch na **DI-DDOSBARTH**.

Os caiff dyfeisiadau symudol o'r fath eu defnyddio i brosesu data, mae'n hanfodol i weithrediad y Brifysgol nad yw'r data'n cael ei gadw ar y ddisg galed (gyriant C).

Rhaid i ddefnyddwyr cymeradwy'r Brifysgol sy'n teithio i India, China, Singapore a Malaya wneud yn siŵr bod trwyddedau angenrheidiol wedi'u sicrhau cyn ymadael i gael mynediad i'r wlad gyda dyfais wedi'i hamgryptio; neu wneud y trefniadau angenrheidiol yn eu hadran i ddefnyddio gliniadur 'glân' (heb ddata dosbarthedig na data heb ei amgryptio wedi'i gadw ar y ddyfais).

5.13 Symud Asedau o Safle'r Brifysgol

Mae angen awdurdod oddi wrth y rheolwr llinell os yw unrhyw ased i gael ei symud o safle'r Brifysgol. Ar gyfer asedau â dosbarthiad **CYFRINACHOL** neu uwch, bydd angen awdurdod penodol ynghyd â threfniadau i sicrhau bod deunydd yn cael ei ddiogelu a'i warchod yn briodol.

5.14 Gweld a Chlywed heb Awdurdod a Chynllunio Cymdeithasol

Wrth drafod neu brosesu materion o natur sensitif ar safle'r Brifysgol neu yn gyhoeddus, rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau nad yw dyfeisiau cyfrifiadurol symudol yn cael eu gweld gan bobl eraill.

Cynllunio cymdeithasol yw ymwthio annhechnegol sy'n dibynnu'n helaeth ar ryngweithio dynol ac sy'n aml yn cynnwys twyllo pobl eraill i dorri gweithdrefnau diogelwch arferol.

Rhaid bod yn ofalus wrth gadarnhau manylion gydag unigolion dros y ffôn i sicrhau bod y gwiriadau dilysu angenrheidiol wedi'u cynnal i atal unrhyw gynllunio cymdeithasol. Mewn rhai achosion gellir defnyddio'r darn lleiaf o wybodaeth bersonol i roi argraff o hygrededd i unigolion (e.e. dyddiad geni, manylion yr ysgol a fynychwyd, gweithle) ac mae poblogrwydd cynyddol Facebook a diniweidrwydd llawer o ddefnyddwyr wrth gyhoeddi gwybodaeth bersonol amdanynt eu hunain wedi bod yn ffynhonnell o wybodaeth i dwyllwyr sy'n edrych am wybodaeth i sicrhau 'troed yn y drws'.

5.15 Systemau 'Cwmwl', gwestyol neu Wasanaeth Cyffredin

Anogir staff i beidio â defnyddio systemau o'r fath, fodd bynnag os oes angen gwneud mae'r un egwyddorion yn gymwys drwy'r holl ddata neu'r wybodaeth y gellid eu gosod neu sy'n aros mewn systemau sy'n allanol i'r Brifysgol megis systemau gwestyol, 'cyd-leoli' neu gyffredin allanol; neu mewn systemau a gwasanaethau 'cwmwl' di-leoliad gan gynnwys systemau gwe megis Drop Box.

Cyfrifoldeb y defnyddiwr cymeradwy yw sicrhau bod mesurau diogelwch yn weithredol i warchod data yn unol â'r polisi hwn a'r Polisi Preifatrwydd Gwybodaeth. Dylid defnyddio telerau contractaidd gyda'r darparwr i sicrhau cyfrinachedd, diogelwch ac unplygrwydd data. I gael cyngor ac arweiniad cysylltwch â compliance@wales.ac.uk .

5.16 Gwaredu

Rhaid gwaredu asedau gwybodaeth o natur sensitif, ac yn enwedig rhai sy'n cynnwys dosbarthiad, drwy ddefnyddio dulliau cymeradwy. Gellir gosod deunydd DI-DDOSBARTH a CHYFRINACHOL mewn biniau gwastraff cyfrinachol, ond rhaid carpio deunydd CYFRINACHOL IAWN. Cyfeiriwch at y Weithdrefn Gwaredu sydd ar y Fewnrwyd.

5.17 Torri Diogelwch Gwybodaeth

Bydd defnydd o'r rhyngrwyd ac ebost yn cael ei fonitro fel mater o drefn gan yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth, ac os canfyddir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig, caiff y rheolwr llinell perthnasol ei hysbysu.

Rhaid adrodd am unrhyw ddigwyddiad sy'n peryglu diogelwch neu a allai gyfaddawdu'r sefydliad, y staff, gwybodaeth adrannol neu asedau eraill i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth ar gyfer asesu a phenderfynu ar gamau pellach. Gellir gwneud hyn ar y Ffurflen Digwyddiad Peryglu Diogelwch, a geir yn Atodiad 1.

Os yw defnyddiwr cymeradwy'n credu bod toriad diogelwch wedi digwydd a allai fod wedi cyfaddawdu data personol, rhaid hysbysu'r Rheolwr Cydymffurfio ac Ysgrifenyddiaeth ar unwaith, neu heb fod yn hwyrach na 72 awr ar ôl canfod y toriad hwnnw.

5.18 Ymwybyddiaeth a Threfniadau Disgyblu

Rhoddir copi o'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth i bob aelod newydd o staff fel rhan o broses Ymsefydlu'r Brifysgol ac mae ei'w weld ar fewnrwyd y Brifysgol.. Bydd staff cyfredol, myfyrwyr a gweithwyr asiantaeth yn y

Brifysgol, trydydd partïon awdurdodedig a chontractwyr sydd â mynediad at rwydwaith y Brifysgol yn cael eu hysbysu gan y Rheolwr sy'n defnyddio eu gwasanaethau am fodolaeth y polisi hwn, ynghyd â'r polisïau a'r gweithdrefnau eraill a gyhoeddir ar fewnrwyd y Brifysgol. Bydd yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth yn anfon negeseuon yn atgoffa am fodolaeth a natur y polisi o leiaf unwaith y flwyddyn.

Os bydd defnyddiwr cymeradwy'n methu â chydymffurfio â'r polisi hwn gallai arwain at roi camau disgyblu perthnasol ar waith, ac mewn rhai amgylchiadau, gallai arwain at gymryd camau cyfreithiol. Os bydd contractwr yn methu â chydymffurfio gallai hynny arwain at ddiddymu contract.

6. Cydymffurfiaeth

Mae'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth hwn yn egluro cyfrifoldebau'r holl ddefnyddwyr cymeradwy, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau partner cydweithredol, mewn perthynas â'u defnydd o systemau gwybodaeth a data'r Brifysgol. Mae unrhyw unigolyn sy'n defnyddio systemau a / neu ddata'r Brifysgol yn cytuno, drwy wneud hynny, i gydymffurfio â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth, a lle bo'n briodol, caiff eu cydymffurfiaeth ei fonitro.

Rhaid i holl weithgareddau'r Brifysgol gael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddefnyddwyr cymeradwy y mae eu dyletswyddau'n teilyngu hynny yn cael arweiniad penodol ar gydymffurfiaeth gyfreithiol. Os yw unrhyw ddefnyddiwr cymeradwy'n ansicr am ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r gyfraith, dylai geisio cyngor gan y rheolwr llinell.

Mae defnydd o wybodaeth yn ddarostyngedig i nifer o wahanol Ddeddfau Seneddol, ynghyd ag amryw o ddeddfau statudol ac eraill. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988
Deddf Diogelu Data 1998
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron1990
Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Deddf Cyfathrebu Electronig2000
Deddf yr Economi Ddigidol2010
Deddf Difenwi 1996

Cyn cyflwyno unrhyw system newydd, caiff proses o asesu risg ei chynnal a fydd yn cynnwys asesiad o'r rhwymedigaethau cyfreithiol a allai godi o ddefnyddio'r system. Caiff y rhwymedigaethau cyfreithiol hyn eu cofnodi a bydd ganddynt reolwr gwasanaeth a enwir, gyda chyfrifoldeb am ddiweddaru'r wybodaeth honno.

Mae'r polisïau defnydd derbyniol yn pennu unrhyw ddefnydd o systemau gwybodaeth y Brifysgol a waherddir ac y gellid cymryd camau disgyblu mewn perthynas â hwy.

Caiff gwybodaeth ei chadw am gyfnodau priodol sy'n gyson ag anghenion busnes a deddfwriaeth berthnasol ac Amserlen Cadw'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC). Yn ystod cyfnodau cadw bydd systemau technegol priodol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod modd cyrchu'r data.

Bydd y Brifysgol yn prosesu data personol yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data yn unig. Dim ond pan fydd aelod o staff wedi'i awdurdodi i wneud hynny y caiff gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol ei datgelu neu ei rhannu.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gyrchu data mewn systemau gwybodaeth lle bo angen hyn ar gyfer dibenion rheoli. Mewn achosion lle bydd angen ymchwilio traffig neu gynnwys cyfrifon defnyddwyr, bydd staff technegol y Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynnal gwaith o'r fath dan gyfarwyddyd penodol oddi wrth yr Is-Ganghellor yn dilyn awdurdod gan y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau. Bydd y Brifysgol yn cynnwys yr heddlu ym mhob achos lle credir y gall fod gweithgaredd anghyfreithlon..

Bydd holl systemau gwybodaeth y Brifysgol yn cael eu gweithredu a'u gweinyddu yn unol â gweithdrefnau perthnasol, a gall y Brifysgol ar unrhyw adeg fonitro cydymffurfiaeth gydag awdurdod yr Is-Ganghellor.

7. Gwahaniaethu

Wrth weithredu'r polisi, ni fydd y Brifysgol yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bersonau beth bynnag eu rhyw, tueddfryd rhywiol, hil, lliw, iaith, crefydd, barn grefyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu ethnig, cyswllt â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall a ddiffinnir dan Erthygl 14, Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

8. Cydymffurfio â Chynllun y Gymraeg

Mae'r Polisi hwn yn anelu at gydymffurfio â threfniant Cynllun y Gymraeg o ran ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith, yr effaith ar ddelwedd gyhoeddus y sefydliad a gweithrediad y Cynllun Iaith.

9. Amserlenni Gweithredu

Dylid defnyddio polisïau a gweithdrefnau newydd ar unwaith yn dilyn mabwysiadu'n ffurfiol a'u cyfleu i'r holl aelodau o staff.

10. Arweiniad

Dylid cyfeirio ceisiadau am arweiniad ar unrhyw agwedd o'r polisi hwn at Reolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol: cydymffurfiaeth@cymru.ac.uk

Atodiad 1 Ffurflen Digwyddiad sy'n Peryglu Diogelwch Prifysgol Cymru

At	**Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth, y Gofrestrfa, Parc Cathays, Caerdydd**
Oddi wrth / teitl	
Lleoliad	
Cyfeiriad ebost	
Ffôn / ffôn symudol	
Rhif yr Ased, os yw'n wybyddus	
Dyddiad ac amser y digwyddiad (os yw'n wybyddus)	
Colli Ased Ffisegol (damweiniol neu ddwyn)	
Oes ased ffisegol wedi'i golli? Rhowch fanylion gan gynnwys amgylchiadau. Gwerth os yw'n wybyddus	
A hysbyswyd yr Heddlu? Os felly pa heddlu a beth yw'r rhif trosedd?	
Data wedi'i gyfaddawdu (wedi'i golli a /neu dorri cyfrinachedd)	
Oes data wedi'i golli, ei ddatgelu neu ei lygru'n faleisus? Ymhle roedd yn cael ei storio? Beth oedd amgylchiadau'r golled?	
Oes lladrad, dynwared neu gyfaddawdu hunaniaeth wedi digwydd?	
Oes tor-cyfrinachedd wedi digwydd? Sut digwyddodd hyn?	
Disgrifiwch natur unrhyw golli neu gyfaddawdu data	
Ymosodiad ar y system – rhybudd firws neu weithgaredd maleisus arall	
A nodwyd rhybudd firws neu ymosodiad arall? A gafwyd neges? A welsoch chi enw'r firws?	
Gwybodaeth arall	
Nodwch unrhyw ddigwyddiad neu wybodaeth arall am gyfaddawdu system diogelwch gwybodaeth y Brifysgol.	

Llofnod_____

Dyddiad_____